**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**10 IONAWR 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mercher 10 Ionawr 2018.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Dunbar (Is-gadeirydd yn Cadeirio)**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Derek Butler, David Cox, Carol Ellis, David Evans, Dave Hughes, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Neville Phillips ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: David Wisinger (Cadeirydd), Adele Davies-Cooke, Veronica Gay, Patrick Heesom, Billy Mullin a Mike Peers

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio a’r Amgylchedd); Rheolwr Datblygu, Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth; Uwch Gynllunwyr, Uwch Gyfreithiwr a Swyddog Pwyllgorau.

## 51. DATGAN CYSYLLTIAD

Ar eitem 6.1 ar yr agenda (cyfeirnod 055369), datganodd Richard Lloyd gysylltiad personol a chysylltiad sy'n rhagfarnu oherwydd agosrwydd ei eiddo i safle’r cais. Dywedodd y byddai’n siarad am dri munud fel preswylydd lleol ac yna'n gadael yr ystafell cyn y drafodaeth a’r bleidlais.

## 52. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i’r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd yn ystod y cyfarfod ac a oedd wedi eu hychwanegu i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

http://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4141&LLL=0

## 53. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2017.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo’r cofnodion fel cofnod cywir a’u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 54. EITEMAU I’W GOHIRIO

Nododd y Prif Swyddog (Cynllunio a’r Amgylchedd) na argymhellodd y swyddogion i unrhyw rai o’r eitemau ar y rhaglen gael eu gohirio.

**55. <u>ADRODDIADAU’R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD)</u>**

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

Cofnodi penderfyniadau fel y dangosir ar amserlen y Cais Cynllunio sydd ynghlwm fel atodiad.

**56. <u>AELODAU O’R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL</u>**

Ar ddechrau’r cyfarfod roedd un aelod o’r cyhoedd a neb o’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 2.25pm)

……………………………

**Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu a gellir eu gwylio drwy ymweld â’r llyfrgell gweddarlledu: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 10 IONAWR 2018**

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CYNNIG | CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 055369 | Cyngor Tref Saltney | Cais llawn - Codi 3 o Anheddau a Gwaith Cysylltiol yn The Yews, Saltney Ferry. | Wedi datgan cysylltiad personol a chysylltiad sy'n rhagfarnu, siaradodd Richard Lloyd am dri munud ar y cais cyn gadael yr ystafell cyn y drafodaeth.<br><br>Byddai oriau gweithio yn cael eu hegluro yn y Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (Amod 11). | Cymeradwyo'r caniatâd cynllunio os yw'r ymgeisydd yn cytuno i Rwymedigaeth/ Ymgymeriad Unochrog Adran 106 a'r amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad Swyddog, ac amodau diwygiedig 9 ac 11 a'r ddwy amod ychwanegol ar y daflen sylwadau hwyr. |
| 057374 | Cyngor Cymuned Penarlâg | Cais Llawn – Adeiladu 24 o Anheddau, cadw tir ar gyfer canolfan gymunedol a Gwaith Cysylltiol yn 59, Wood Lane, Penarlâg | Siaradodd Mr. W. Bridge yn erbyn y cais. | Cymeradwyo caniatâd cynllunio os yw'r ymgeisydd yn cytuno i Rwymedigaeth/ Ymgymeriad Unochrog Adran 106 a'r amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad Swyddog, a diwygiadau a'r amod ychwanegol yn y sylwadau hwyr. Diwygio 2.01 (c) i ddarllen 'sicrhau rhoddi yn anrheg ardal o dir o fewn y safle i Gyngor Cymuned Penarlâg cyn cychwyn datblygu'r ganolfan gymunedol newydd arfaethedig a rheoli'r defnydd o'r tir at y pwrpas hwnnw.' |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CYNNIG | CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 057589 | Cyngor Tref Bwcle | Cynllunio Llawn - newid defnydd i Dŷ Amlfeddiannaeth yn 68 Ffordd yr Wyddgrug, Bwcle | Siaradodd y Cynghorydd Carol Ellis yn erbyn y cais a gadawodd yr ystafell cyn y drafodaeth ac ni ddychwelodd hyd nes wedi i'r Pwyllgor benderfynu ar y cais. | Cymeradwyo caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn adroddiad y swyddog, yn unol ag argymhelliad swyddog, a bod yr ymgeisydd yn cytuno i Rwymedigaeth Adran 106 i ddarparu 4 gofod parcio ar dir i'r gorllewin o'r safle ac fel y nodir yn y cais. |